



## Telerau ac Amodau ar Gyfer Ffilmio

### 1 Diffiniadau

- 1.1 Ystyr “Mynediad” yw’r tir a nodir i’w ddefnyddio at ddibenion mynediad i’r Lleoliad ac yn ôl fel y cytunwyd rhwng y Cyngor a’r Trwyddedai (fel y dangosir wedi’i liwio’n frown ar y Cynllun atodedig)..
- 1.2 Ystyr “Asiant” yw trydydd parti a wahoddir i fod yn bresennol yn ystod y Gwaith Ffilmio yn y Lleoliad gan y Trwyddedai. Bydd y Trwyddedai yn gwbl gyfrifol am yr asiant a’i weithredoedd yn y Gwaith Ffilmio gan gynnwys gwirio ei ddogfennaeth briodol.
- 1.3 Ystyr “Cyngor” yw Cyngor Bro Morgannwg ac mae’n cynnwys ei olynwyr o ran teitl.
- 1.4 Ystyr “Trwyddedai” yw cwmni neu gynrychiolydd y sefydliad sy’n trefnu’r Gwaith Ffilmio sy’n talu unrhyw ffioedd sy’n daladwy un unol â’r Drwydded. Ni chaiff y cytundeb gan y Cyngor i ganiatáu defnyddio’r Lleoliad ei drosglwyddo neu ei is-osod i unrhyw berson arall. Bydd y Trwyddedai yn rhoi manylion llawn o’r Cwmni Cynhyrchu ynghyd â theitl y Cynhyrchiad i’r Cyngor.

### 2 Taliadau

- 2.1 Bydd y Trwyddedai yn atebol ar gyfer cost lawn yr holl ffioedd a thaliadau gan gynnwys darparu unrhyw wasanaethau (lle y bônt ar gael) gan y Cyngor, e.e. trydan, dŵr, marcio caeau. Caiff yr holl gostau eu hanfonebu o fewn 14 diwrnod ar ddiwedd y Gwaith Ffilmio.

### 3 Canslo

- 3.1 Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i dynnu caniatâd yn ôl i ddefnyddio’r Lleoliad ar gyfer Gwaith Ffilmio. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd wrth ganslo’r Gwaith Ffilmio ond ni fydd yn atebol o gwbl ar gyfer unrhyw wariant yr eir iddo neu golled a gafodd y Trwyddedai o ganlyniad i’r cansliad.
- 3.2 Mae’n rhaid i’r Trwyddedai ganslo’r Gwaith Ffilmio yn ysgrifenedig. Y dyddiad dod i rym fydd pan fydd y Cyngor yn derbyn yr hysbysiad canslo. Bydd y Trwyddedai yn atebol i’r Cyngor am unrhyw gostau yr â’r Cyngor iddynt mewn perthynas â’r Gwaith Ffilmio.
- 3.3 Mae’n rhaid i gyfnewidiadau a diwygiadau o ran natur y Gwaith Ffilm gael eu hysbysu’n ysgrifenedig i’r Cyngor. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl naill ai i ganslo’r archeb neu i ddiwygio’r Ffi fel yr ystyrir yn briodol. Os digwydd cansliad o’r fath, bydd y Trwyddedai’n atebol fel y’i datgenir yng Nghymal 3.2 uchod.

3.4 Bydd gan y Cyngor yr hawl i ganslo'r Gwaith Ffilmio os digwydd y bydd y tir yn y Lleoliad, ym marn y Cyngor, yn anaddas i'w ddefnyddio ac ni fydd yn atebol am unrhyw golled y bydd y Trwyddedai yn ei chael o ganlyniad i'r cansliad.

3.5 Y Trwyddedai yn unig sy'n gyfrifol am sicrhau y darperir yr holl daliadau a'r holl ddogfennaeth sydd eu hangen ar gyfer y Gwaith Ffilmio i'r Cyngor yn brydlon.

#### **4 Argyfyngau**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo'r Gwaith Ffilmio os effeithir ar y Lleoliad neu'r Mynediad gan argyfwng o unrhyw fath. Bydd y Cyngor yn ystyried ad-dalu rhan neu'r holl ffioedd a'r taliadau a dalwyd gan y Trwyddedai a bydd swm unrhyw ad-daliad yn ôl disgrisiwn y Cyngor yn unig.

#### **5 Defnydd y Lleoliad a Mynediad a Gofynion mewn perthynas â'r Gwaith Ffilmio**

5.1 Sicrheir bod y Lleoliad ar gael i'r Trwyddedai ar gyfer y Gwaith Ffilmio.

5.2 Sicrheir bod y Mynediad ar gael i'r Trwyddedai yn ystod y Gwaith Ffilmio at ddibenion mynediad i'r Lleoliad ac yn ôl.

5.3 Bydd y Trwyddedai'n cadw'r Lleoliad a'r Mynediad yn lân ac yn daclus a bydd yn sicrhau y codir sbwriel yn y Lleoliad a'r Mynediad yn rheolaidd yn ystod y Gwaith Ffilmio. Ni fydd y Trwyddedai'n peri i'r Cyngor dorri ei rwymedigaethau o dan "Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff".

5.4 Bydd y Trwyddedai'n mynd â'r holl sbwriel a'r gwastraff a gynhyrchir gan y Gwaith Ffilmio i ffwrdd o'r Lleoliad a'r Mynediad i foddhad y Cyngor.

5.5 Mae'n rhaid i'r Trwyddedai ofalu'n dda am y Lleoliad a'r Mynediad bob amser a bydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i'r Lleoliad i'r Mynediad neu unrhyw offer neu eiddo arall i'r Cyngor.

5.6 Mae'n rhaid i eiddo'r Trwyddedai ac eiddo Asiantau'r Trwyddedai gael ei symud i ffwrdd o'r Lleoliad a'r Mynediad ar ddiwedd Cyfnod y Drwydded. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw eiddo a adewir yn y Lleoliad ar, yn ystod neu ar ôl Cyfnod y Drwydded.

5.7 Os bydd y Trwyddedai'n methu â chyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau a restrir yng Nghymalau 5.3, 5.4 a 5.5 uchod, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyflawni unrhyw un o'r fath rwymedigaethau yn ddiodyn ac yn yr achos hwn bydd y Trwyddedai'n talu unrhyw gostau yr â'r Cyngor iddynt wrth gyflawni'r fath rwymedigaethau.

5.8 Mae'r Trwyddedai'n gyfrifol am weinyddu, trefnu a chynnal y Gwaith Ffilmio ac am fod â digon o stiwardiaid a swyddogion i fodloni'r Amodau hyn.

5.9 Mae'r Trwyddedai'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli pob un sy'n bresennol yn y Gwaith Ffilmio.

5.10 Ni chaniateir i'r Trwyddedai symud neu orchuddio hysbysiadau neu blacardiau'r Cyngor a arddangosir ar y Lleoliad heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.

- 5.11 Lle na fu'n bosibl gwneud gorchymyn cau ffordd bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod na chaiff yr offer cau ffyrdd a ddarperir gan y Cyngor ei symud a bydd yn sicrhau bod y ffordd yn aros ar gau.
- 5.12 Ni fydd y Trwyddedai'n ymyrryd ag unrhyw eitem o gelfi stryd neu gelfi'r parc ac yn atodi unrhyw beth atynt.
- 5.13 Ni fydd y Trwyddedai'n cloddio neu'n drilio tyllau pinio i mewn i'r Lleoliad oni chaiff gydsyniad ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.
- 5.14 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau na chaiff unrhyw gerbydau eu parcio neu eu gyrru ar draws unrhyw lwybr troed cyhoeddus yn y Lleoliad oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r Cyngor.
- 5.15 Ni fydd y Trwyddedai'n cyfyngu ar fynediad cerddwyr ar hyd unrhyw lwybr troed sydd yn y Lleoliad, oni bai y cytunwyd fel arall gyda'r Cyngor.
- 5.16 Ni fydd y Trwyddedai'n ymyrryd neu'n gwneud unrhyw newid i gynllun neu drefniant y Lleoliad neu Fynediad oni chaiff gydsyniad ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.
- 5.17 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau y cedwir y Mynediad yn rhydd rhag cael ei rwystro gan ei weithgareddau bob amser ac na chaiff ei ddefnyddio mewn ffordd a fydd yn achosi unrhyw rwystr i unrhyw briffordd, ffordd mynediad, ardal parcio neu ardal gwasanaeth gyfagos oni fydd y Cyngor yn cytuno fel arall.
- 5.18 Bydd y Trwyddedai'n defnyddio pob ymdrech i osgoi peri niwsans i feddianwyr eiddo o amgylch y Lleoliad a'r Mynediad neu i ddefnyddwyr yr ardal gylch y Lleoliad a'r Mynediad boed oherwydd sŵn, pobl yn symud neu barcio neu ddefnydd cerbydau.
- 5.19 Mae'n rhaid i'r Gwaith Ffilmio ddod i ben ac mae'n rhaid i bob gweithred glirio gael ei chwblhau, a bydd pob un sy'n bresennol yn gadael y Lleoliad yn unol â Chyfnod y Drwydded.
- 5.20 Bydd y Trwyddedai'n darparu pob darpariaeth glanweithdra dros dro ar y fath lefel ag yr ystyrir yn rhesymol gan y Cyngor. Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am gysylltu'n briodol, diogelwch a glanhau/gwasanaethu unrhyw doiledau cludadwy. Bydd y Trwyddedai'n sicrhau y caiff y toiledau cludadwy eu labelu'n glir ac yn sicrhau y darperir cyfleusterau digonol ar gyfer golchi/sychu dwylo.
- 5.21 Mae'n rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn y Lleoliad mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio yn cael mynediad anghyfyngedig at unrhyw gyfleusterau toiled cyhoeddus parhaol yn y Lleoliad.
- 5.22 Gwaherddir yn llwyr werthu neu yfed diodydd alcoholig yn y Lleoliad..
- 5.23 Ni chaniateir i'r Trwyddedai weithredu neu ryddhau unrhyw wrthrych sy'n hedfan yn uchel (heblaw fel y'i caniateir dan Gymal 6 y Telerau a'r Amodau hyn).
- 5.24 Mae'r Trwyddedai'n cytuno i gydymffurfio ag unrhyw ofynion y Cyngor parthed rheoli traffig.
- 5.25 Mae'r Trwyddedai'n cytuno, lle bydd y Lleoliad i gael ei ddefnyddio yn y tywyllwch, y bydd yn darparu goleuadau priodol ar gyfer pob ardal y caiff y bobl sy'n bresennol eu derbyn neu'n cael mynediad ati.

- 5.26 Nid fydd y Trwyddedai'n dod ag ef i'r Lleoliad unrhyw eitem fflamadwy neu ffrwydrol neu sy'n aroglï'n wael, neu CFC neu unrhyw gyfarpar olew, trydan, nwy neu gyfarpar arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor.
- 5.27 Bydd y Trwyddedai'n cael cymeradwyaeth gan y Cyngor i ddefnyddio generaduron mewn cysylltiad y Gwaith Ffilmio. Os caiff cymeradwyaeth o'r fath ei rhoi, mae'n rhaid i'r Trwyddedai sicrhau y caiff unrhyw generaduron a ganiateir yn y digwyddiad eu gweithredu'n ddiogel ac y cânt eu gwahanu rhag y cyhoedd neu eu hamddiffyn gan orchuddion neu rwystr addas, er mwyn atal mynediad gan aelodau'r cyhoedd.
- 5.28 Ni fydd y Trwyddedai'n dod â, rhoi neu godi unrhyw gelfi arwyddion, ffitiad neu adeiledd neu roi neu osod unrhyw oleuadau ychwanegol neu addurnol yn neu ar unrhyw rannau o'r Lleoliad heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
- 5.29 Mae'n rhaid i ddefnydd unrhyw system annerch y cyhoedd mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio gael ei gytuno'n ysgrifenedig yn gyntaf gan y Cyngor ac mae'n rhaid ei gweithredu fel na fydd yn achosi niwsans sŵn a thorri cymal 5.18.
- 5.30 Bydd y Trwyddedai'n adfer, atgyweirio, ail-osod, glanhau, (neu os bydd y Trwyddedai'n methu adfer, atgyweirio, ail-osod, glanhau yn unol â'r rhwymedigaeth hon yn ad-dalu i'r Cyngor y gost resymol o adfer, atgyweirio, ail-osod, glanhau) unrhyw ran o eiddo neu eiddo yn y Lleoliad neu'r Mynediad os caiff ei ddifrodi, ei ddinistrio, ei ddwyn neu ei gymryd i ffwrdd o ganlyniad uniongyrchol i gynnal y Gwaith Ffilmio cyn, yn ystod neu yn dilyn y Gwaith Ffilmio cyhyd â bod y Cyngor yn rhoi gwybod i'r Trwyddedai'n brydlon wrth ddod o hyd i unrhyw golled neu ddifrod o'r fath a beth bynnag o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y mae'r Drwydded yn dod i ben.
- 5.31 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau na chaiff unrhyw offer a all gynhyrchu sain wedi'i seinchwyddo ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio mewn ffordd a fydd yn peri niwsans neu aflonyddwch i bobl yng nghyffiniau'r Lleoliad, oni chytunir fel arall gyda'r Cyngor.
- 5.32 Ni fydd y Trwyddedai'n mynd i mewn i'r Lleoliad i baratoi ar gyfer y Gwaith Ffilmio unrhyw bryd cyn dechrau Cyfnod y Drwydded, oni chytunir fel arall gyda'r Cyngor.
- 5.33 Bydd y Trwyddedai'n bresennol yn Lleoliad bob amser yn ystod Cyfnod y Drwydded.
- 5.34 Bydd y Trwyddedai'n cydymffurfio â phob is-ddeddf ar gyfer y Lleoliad.
- 5.35 Bydd y Trwyddedai'n darparu cyfleusterau ymladd tân digonol ar gyfer y Gwaith Ffilmio.
- 5.36 Bydd y Trwyddedai'n rhoi manylion i'r Cyngor ar unrhyw bebyll mawr/adeileddau fel pebyll i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio ac yn cyflwyno copi o'r Tystysgrifau Diogelwch Tân ar gyfer unrhyw adeiledd o'r fath.
- 5.37 Gwaherddir lansio balwŷns a llusernau a defnydd tân gwyllt a phyrotechnegau yn llwyr yn y Lleoliad a bydd y Trwyddedai'n sicrhau na chaiff unrhyw un o'r rhain eu defnyddio mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio, oni chytunir fel arall gyda'r Cyngor.
- 5.38 Caiff parcio pob cerbyd, heblaw am gerbydau argyfwng, ei gyfyngu i fannau parcio dynodedig i'w dyrannu gan y Cyngor cyn i'r Gwaith Ffilmio ddigwydd. Caiff y Trwyddedai ddefnyddio'r Lleoliad/adran o'r Lleoliad fel y cytunwyd at ddibenion (ond heb fod yn gyfyngedig i) gosod offer, parcio a storio cerbydau dros dro ("Safle'r Uned") mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio. Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu i unrhyw gerbyd gael ei barcio yn unman arall yn y Lleoliad oni chytunir yn benodol yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

- 5.39 Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu ffilmio unrhyw noethineb neu olygfeydd rhywiol heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. Os digwydd bod y Cyngor yn cydsynio i unrhyw ffilmio o'r fath, bydd y Trwyddedai'n rhoi manylion y cynnwys arfaethedig i Heddlu De Cymru.
- 5.40 Ni fydd y Trwyddedai'n defnyddio unrhyw anifeiliaid mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor. Os caiff cydsyniad ei roi ar gyfer defnyddio anifeiliaid, bydd y Trwyddedai'n dilyn canllawiau'r RSPCA ar gyfer defnyddio anifeiliaid yn y diwydiant clyweledol.
- 5.41 Ni fydd y Trwyddedai'n defnyddio unrhyw arf neu gopi o arf na'n llwyfannu unrhyw olygfeydd o unrhyw weithgarwch troseddol neu unrhyw styntiau neu olygfeydd sy'n cynnwys cerbydau sydd â'r bwriad i bortreadu cerbydau neu wisgoedd y gwasanaethau brys heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw ac os ceir cydsyniad gan y Cyngor, bydd y Trwyddedai'n rhoi gwybod i Heddlu De Cymru am y cynigion.
- 5.42 Nid yw'r Cyngor yn rhoi unrhyw warant bod y Lleoliad yn briodol neu'n addas ar gyfer y Gwaith Ffilmio.

## **6 Defnyddio Dronau**

- 6.1 Caniateir i'r Trwyddedai ddefnyddio dronau yn y Lleoliad yn unol â'r amodau canlynol
- 6.1.1 Rhybudd ymlaen llaw cyn i'r ffilmio ddigwydd;
- 6.1.2 Manylion manwl gywir o amser a hyd arfaethedig y ffilmio
- 6.1.3 Lleoliad arfaethedig manwl gywir (i gynnwys diagram sy'n dangos yr ardal hedfan a'r safle esgyn a glanio ar gyfer y drôn)
- 6.1.4 Cyflwyno asesiad risg a datganiad dull llawn;
- 6.1.5 Tystiolaeth o yswiriant gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus;
- 6.1.6 Manylion y cwmni gweithredu dronau arfaethedig – h.y. Trwyddedau/tystysgrifau AHS; math/ maint/ pwysau'r UAV.
- 6.2 Byddai angen i'r ymgeisydd gydymffurfio'n llwyr â rheolau'r AHS ar gyfer hedfan a ffilmio dronau.

## **7 Hawl Mynediad**

- 7.1 Caniateir i Swyddogion neu Aelodau awdurdodedig gael mynediad i'r Lleoliad bob amser yn ystod Cyfnod y Drwydded.
- 7.2 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu droi allan unrhyw berson o'r Lleoliad.
- 7.3 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu uchafswm ar gyfer nifer y bobl sy'n bresennol yn y Lleoliad mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio.

## **8 Aseinio**

Mae Amodau'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni chaiff yr hawl i ddefnyddio'r Lleoliad ei his-osod, ei haseinio neu ei throsglwyddo fel arall; ni fydd y Trwyddedai'n aseinio budd neu faich unrhyw ran o'r Cytundeb, na'n is-osod neu'n is-gontractio unrhyw ran o'r Lleoliad heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

## **9 Gwahardd**

Ni fydd y Trwyddedai'n llwyfannu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau y gellir eu hystyried yn atodol i'r Gwaith Ffilmio heb gydsyniad ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.

## **10 Pasys, Trwyddedau ac Ymgynghori**

- 10.1 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau y ceir unrhyw drwydded, pas neu gydsyniad a allai fod ei angen gan gynnwys Trwydded Adloniant Cyhoeddus lle y bo angen, boed gan y Cyngor neu fel arall, cyn y gall y Gwaith Ffilmio ddigwydd a bydd, lle y gofynnir amdanynt, yn cyflwyno i'r Cyngor gopiâu ar alwad o'r fath drwydded, pas neu gydsyniad. Os na chafwyd unrhyw drwydded, pas neu gydsyniad, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo'r Gwaith Ffilmio
- 10.2 Os yw'r Trwyddedai'n bwriadu defnyddio cerddoriaeth o unrhyw fath mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio (gan gynnwys perfformiadau byw neu gerddoriaeth cefndir wedi'i recordio) mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod wedi cael y drwydded gywir gan y Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS) a/neu Phonographic Performance Limited (PPL). Os na chafwyd y drwydded/trwyddedau gofynnol, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo'r Gwaith Ffilmio. Caiff unrhyw gostau neu ffioedd yr eir iddynt gan y PRS neu'r PPL oherwydd defnyddio'r drwydded(au) anghywir eu pasio i'r Trwyddedai.
- 10.3 Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am arddangos yr holl basys angenrheidiol yn ystod y Gwaith Ffilmio.
- 10.4 Ni chaiff unrhyw beth ei wneud gan y Trwyddedai a fydd neu a fydd o bosibl yn mynd yn groes i delerau ac amodau unrhyw drwydded, pas, cydsyniad neu awdurdod arall a ddyfarnwyd mewn perthynas â'r Lleoliad.
- 10.5 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw adeiledd dros dro (e.e. pebyll, pabell fawr, ayyb.) sydd naill ai'n amgaeedig neu'n amgaeedig i raddau helaeth (mae a2 Rheoliadau (Adeiladau a Gorfodi) Di-fwg 2006) yn arddangos yr arwyddion 'Dim Ysmygu' cywir wrth y mynedfeydd ac yn ddi-fwg. Wrth benderfynu a yw adeiledd yn amgaeedig neu'n amgaeedig i raddau helaeth (mwy na 50% o'r waliau yn eu lle) mae'n rhaid i'r Trwyddedai gynnwys yn eu cyfrifiadau unrhyw baneli ochr y gellir eu rhoio i lawr neu eu hatodi. Yna caiff yr adeiledd ei drin fel y cafodd unrhyw baneli o'r fath eu rhoio i lawr neu eu hatodi (e.e. yn ddi-fwg), hyd yn oed pan na fyddant yn eu lle.
- 10.6 Wrth ffilmio ar y Briffordd, bydd y Trwyddedai'n rhoi gwybod i Arolygydd Sector Heddlu De Cymru mewn perthynas â'r cynigion a'r cadarnhad y cafodd hyn ei wneud.

## **11 Iechyd a Diogelwch**

- 11.1 Bydd y Trwyddedai'n defnyddio'r Lleoliad a'r Mynediad yn unol â'r holl ofynion iechyd a diogelwch statudol cymwys gan reoli mynediad yn llym bob amser a bydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan y Cyngor neu ei swyddog a enwebwyd. 'n
- 11.2 Mae'r Trwyddedai'n cytuno i ymgymryd ag asesiad risg (y mae'n rhaid iddo gael ei gynnal gan Gynrychiolydd Iechyd a Diogelwch cymwys a chymwysedig) ar gyfer y Gwaith Ffilmio yn y Lleoliad a bydd yn gofyn bod pob cyfranogwr a chontractwr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol neu unrhyw ganllawiau eraill sy'n berthnasol iddynt bob amser yn ystod Cyfnod y Drwydded ac wrth baratoi a chlirio'r Lleoliad a'r Mynediad ar gyfer y Gwaith Ffilmio. Mae'n rhaid cyflwyno copi o'r asesiad risg i'r Cyngor cyn bod y gwaith Ffilmio'n dechrau. Bydd methu â chyflwyno copi'n yn arwain at y Gwaith Ffilmio yn cael ei ganslo. Trwy dderbyn copi o asesiad risg y Trwyddedai nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r asesiad yng nghyd-destun ei dderbyn fel asesiad cyflawn

a chywir ar gyfer y Gwaith Ffilmio ond ei fod ond yn bodloni buddiannau rheoleiddiol a pherchnogaeth tir y Cyngor.

- 11.3 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw osodiadau trydanol yn cydymffurfio'n llawn â BS7671 - IET Wiring Regulations 17<sup>eg</sup> Argaffiad (neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'r Rheoliadau sydd ar waith adeg y Gwaith Ffilmio) ac y cânt eu gweithredu gan "berson cymwys" sydd â'r cymwysterau a'r profiadau addas.
- 11.4 Bydd gan y Trwyddedai offer diogelwch a chyfleusterau cymorth cyntaf addas a digonol ar waith a bydd personél cymwys yn bresennol ac ar gael bob amser yn ystod Cyfnod y Drwydded.
- 11.5 Mewn argyfwng, bydd y Trwyddedai'n sicrhau y caiff y Gwasanaethau Brys eu galw ar unwaith ac os bydd angen, gohirio'r Gwaith Ffilmio a threfnu symud pobl o'r Lleoliad.
- 11.6 Pan fydd y Gwaith Ffilmio'n cynnwys defnyddio unrhyw ddarn o'r briffordd fabwysiedig, bydd yn rhaid i'r Trwyddedai roi ar waith gynllun rheoli traffig y mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn dechrau'r Gwaith Ffilmio a sicrhau bod unrhyw bersonél yn gwisgo dillad gweledd uchel priodol.
- 11.7 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau y caiff unrhyw geblau a osodir mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio eu gwneud yn ddiogel wrth iddynt gael eu gosod.

## **12 Indemniad ac Yswiriant**

- 12.1 Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol ac ni fydd yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, anafiad neu farwolaeth o gwbl a chan bwy bynnag y'i hachoswyd, boed i'r eiddo neu'r person(au) a gafwyd gan unrhyw berson yn y Lleoliad neu'r Mynediad.
- 12.2 Mae'r Trwyddedai'n gyfrifol am bob agwedd ar ddiogelwch yn y Gwaith Ffilmio yn y Lleoliad a'r Mynediad yn ystod Cyfnod y Drwydded i'r graddau nad yw'r fath agweddau'n gyfrifoldeb ar y Cyngor a bydd yn derbyn cyfrifoldeb dros golled neu ddifrod i eiddo, anafiadau neu farwolaeth i'r graddau a achoswyd gan weithred esgeulus neu hepgoriad neu gamymddwyn bwriadol y Trwyddedai boed i eiddo neu a gafwyd gan unrhyw berson(au) yn y Lleoliad neu'r Mynediad yn ystod Cyfnod y Drwydded.
- 12.3 Bydd y Trwyddedai'n indemnio ac yn cadw rhag indemniad, y Cyngor yn erbyn atebolrwydd parthed colled, hawliau, gweithredoedd, achosion, costau neu ddyfarniadau rhesymol, ymatebolrwydd a threuliau yr eir iddynt yn rhesymol parthed colled neu ddifrod i eiddo, anafiadau neu farwolaeth i bersonau i'r graddau a achosir gan weithred esgeulus neu hepgoriad neu gamymddwyn bwriadol y Trwyddedai, ei gyflogeion, ei asiantau a'i gontractwyr mewn cysylltiad â'i ddefnydd o'r Lleoliad a'r Mynediad fel y darparwyd isod.
- 12.4 Heb ragfarnu 12.3, mae'r Trwyddedai'n cytuno i gymryd a chadw Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Risgiau Trydydd Parti gan gynnwys atebolrwydd cynhyrchion lle y bo'n briodol am o leiaf £5 miliwn (pum miliwn o bunnoedd) ac i gyflwyno tystysgrif o yswiriant sy'n rhoi tystiolaeth ohono.
- 12.5 I'r graddau a ganiateir gan gyfraith gymwys, ni fydd atebolrwydd llwyr y naill barti na'r llall sy'n codi o'r Drwydded hon yn fwy na phum miliwn o bunnoedd (£5,000,000) gyda'i gilydd.
- 12.6 Bydd gofyn i'r Trwyddedai gyflwyno tystiolaeth o fodolaeth Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar y fath lefel ag sy'n ofynnol gan y Cyngor yn gweithredu'n rhesymol parthed unrhyw Asiant sy'n rhan o'r Gwaith.

12.7 Bydd methu â chyflwyno prawf o yswiriant fel sy'n ofynnol dan gymalau 12.4 a 12.5 cyn dechrau'r Gwaith Ffilmio yn arwain at ganslo'r Gwaith Ffilmio gan y Cyngor.

12.8 Ni fydd unrhyw beth yn y Cymal 12 hwn yn cyfyngu ar neu'n eithrio atebolrwydd y Cyngor ar gyfer:

(a) marwolaeth neu anaf bersonol neu ddifrod i eiddo a achosir gan esgeulustod ar ran y Cyngor neu ei gyflogeion neu ei asiantau; neu

(b) unrhyw fater y byddai'n anghyfreithlon i'r Cyngor eithrio neu gyfyngu ar atebolrwydd yn ei gylch.

### **13 Arlwyyo a chyflenwad dŵr**

13.1 Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw arlwywyr yn y Lleoliad mewn cysylltiad â'r Gwaith Ffilmio yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a chydag unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau ac yn cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Iechyd Amgylcheddol.

13.2 Os bydd y Trwyddedai'n dymuno cysylltu safbibell a/neu unrhyw rwydwaith dros dro i hydrant cwmni dŵr prif gyflenwad, bydd angen iddo geisio awdurdod gan y cwmni prif gyflenwad a rhoi manylion i'r Cyngor o'r trefniant (cytundeb llogi safbibell), cyn dechrau'r Gwaith Ffilmio. Mae'n rhaid i'r cytundeb ddatgan yn glir bod y dŵr at ddibenion yfed a/neu baratoi bwyd a'i fod i'w gludo trwy gyflenwad dŵr dros dro.

13.3 Os caiff y dŵr ei ddsbarthu i'r safle (mewn bowserau neu danceri ayyb.) i'w ddsbarthu trwy gyflenwad dŵr dros dro, bydd angen i'r Trwyddedai roi manylion i'r Cyngor o ran o ble y daw'r dŵr a rhoi tystiolaeth y bydd y dŵr yn bodloni'r safonau dŵr yfed gofynnol. Bydd angen i'r gweithrediad cyfan o ffynhonnell y dŵr i'r pwynt defnyddio gydymffurfio â BS8551. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn archwilio'r Cyflenwad Dros Dro i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cyflenwad Dŵr Preifat 2009.

13.4 Gellir defnyddio unrhyw dapiau a safbibellau presennol yn y Lleoliad fel ffynhonnell o ddŵr yfadwy ar gyfer y Gwaith Ffilmio. Fodd bynnag, ni ddylai fod unrhyw bibellau neu seilwaith arall wedi'u cysylltu/atodi i'r pwyntiau tynnu i ffwrdd oni bai y dilynir Cod Ymarfer Safonau Prydeinig BS8551:2015 (Darparu a rheoli cyflenwadau dŵr a rhwydweithiau dosbarthu dros dro). Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r cwmni prif gyflenwad dŵr os yw Cyflenwad Dros Dro i'w greu a bydd y Cyngor yn gofyn iddo ymgymryd ag archwiliad o'r cyflenwad cyn ei ddefnyddio.

13.5 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw hylifau dieisiau (gan gynnwys dŵr gwastraff) yn cael eu symud o'r safle ac nid yn cael eu gwaredu i'r system garthffosiaeth neu ar y Lleoliad.

### **14 Casgliadau neu Loteriau**



Ni ellir cynnal unrhyw gasgliadau, hapchwarae, rasys loteri, loteriau neu fetio o unrhyw fath yn y Lleoliad heb gydsyniad ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.

## **15 Eiddo a gadewir yn y Lleoliad**

Caiff y Cyngor symud a storio unrhyw eiddo a adewir gan y Trwyddedai yn neu ar y Lleoliad ar ôl Cyfnod y Drwydded. Bydd y Trwyddedai'n ad-dalu i'r Cyngor gostau symud a storio o'r fath ar alwad. Nid ystyrir bod y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i neu ladrad eiddo wrth ei symud neu ei storio neu yn ystod hynny. Mae gan y Cyngor

hawl i symud a gwerthu yn y fath fodd ag y mae'n ei weld yn briodol unrhyw eiddo a adewir yn y Lleoliad o ganlyniad o'r llogi sydd heb ei hawlio o fewn 28 diwrnod ac i enillion eu gwerthu.

## **16 Amrywiadau i'r Cytundeb**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i amrywio'r Telerau a'r Amodau unrhyw bryd gan roi 7 diwrnod o rybudd. Ystyrir bod unrhyw amrywiadau a wneir fel hyn wedi'u hymgorffori yn y Telerau a'r Amodau hyn. Gall y Trwyddedau, o fewn 7 diwrnod o dderbyn y fath rybudd, ddod â'r Cytundeb hwn i ben.

## **17 Diogelu / Plant ac Oedolion mewn Perygl**

- 17.1 Bydd y Trwyddedai, wrth ddatblygu ei asesiad risg ar gyfer y Gwaith Ffilmio (fel y'i hamlinellir yng Nghymal 11 - Iechyd a Diogelwch), yn sicrhau y cymerir camau i ddiogelu lles plant neu oedolion sydd mewn perygl ac sy'n gysylltiedig â'r Gwaith Ffilmio a byddwn yn sicrhau y cafodd pob gwiriad GDG priodol parthed pawb sy'n bresennol yn y Gwaith Ffilmio ac y bydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, rheoliadau ac arweiniad sydd ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.
- 17.2 Heb ragfarnu effaith y rhwymedigaethau cyffredinol a restrir yng Nghymal 17.1, bydd y Trwyddedai'n cydymffurfio (mewn perthynas â phlant sy'n byw yng Nghymru) â gofynion Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 a wnaed dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 ac (mewn perthynas â phlant sy'n byw yn Lloegr), Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Lloegr) 2014 a Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963.
- 17.3 Bydd y Trwyddedai yn sicrhau ei fod wedi cael pob trwydded sy'n ofynnol mewn perthynas â chynnwys plant mewn ffilmio cyn dechrau'r Gwaith Ffilmio a bydd yn cyflwyno copïau o'r fath drwyddedau i'r Cyngor ar gais.

## **18 Materion eraill**

- 18.1 Bydd y Trwyddedai'n rhoi delwedd hyrwyddo i'r Cyngor o'r Gwaith Ffilmio y caiff y Cyngor ei defnyddio mewn llenyddiaeth hyrwyddo.
- 18.2 Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod unrhyw hysbysebu a ddefnyddir sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r Gwaith Ffilmio yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysiadau) 1992.
- 18.3 Er gwaethaf cymal 18.2, gwaherddir hysbysebion ar ffurf posterï anghyfreithlon yn llwyr.

## **19 Hawliau Trydydd Parti**

Nid yw'r cytundeb hwn yn creu unrhyw hawl y gellir ei gorfodi gan unrhyw berson nad yw'n barti iddo dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## **20 Awdurdodaeth**

Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu gan a'i ddadansoddi yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr y bydd eu llysoedd yn llysoedd awdurdodaeth gymwys.